Once Upon A Time Nursery
56 Railway Terrace
Llanelli
Carms
SA15 2RH

CIW W130000376

Once Upon
A Time
Day Nursery

Website
www.llanellinursery.co.uk
Phone
01554 785 173
Email
enquiries@llanellinursery.co.uk

# Defnyddio ffonau symudol a dyfeisiadau electronig

| Cymru: SGC |
| --- |
| 20.1 |

Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at bob dyfais sy’n gallu tynnu lluniau, recordio fideos, danfon neu dderbyn galwadau a negeseuon. Mae hyn yn cynnwys camerâu, ffonau symudol, tabledi ac unrhyw ddyfeisiadau recordio gan gynnwys oriorau clyfar. Mae mwy a mwy o ddyfeisiadau yn ein cysylltu’n dechnegol â’r byd tu allan. Byddwn yn addasu’r polisi hwn i gynnwys pob dyfais sydd, yn ein barn ni, angen eu cynnwys er mwyn diogelu plant.

Mewn perthynas â ‘Fit-bits’: Rydym yn argymell eich bod yn diwygio’r polisi hwn yn ôl eich disgresiwn yn ddibynnol ar yr hyn y mae’r ddyfais yn gallu ei wneud, e.e. ni chaniateir rhai sy’n derbyn galwadau a negeseuon ond fe ganiateir rhai sydd ddim ond yn cyfrif camau.

**Ffonau symudol a dyfeisiadau eraill sydd yn derbyn galwadau, negeseuon a galwadau fideo**

Yn Once Upon A Time rydym yn hyrwyddo diogelwch a lles yr holl blant sydd yn ein gofal. Credwn y dylai’n staff roi eu sylw llawn yn ystod oriau gwaith i sicrhau bod pob plentyn yn y feithrinfa yn derbyn gofal ac addysg o ansawdd.

I sicrhau diogelwch a lles plant nid ydym yn caniatáu i staff ddefnyddio ffonau symudol, oriorau clyfar personol a/neu ‘fitbits’ yn ystod oriau gwaith. Rydym yn defnyddio ffonau symudol sy’n perthyn i’r feithrinfa fel dull cyfathrebu mewn amgylchiadau penodol, megis gwibdeithiau.

Dylid defnyddio’r polisi hwn ochr yn ochr â’n polisi diogelwch ar-lein a’r polisïau defnydd derbyniol o TGCh i sicrhau bod plant yn cael eu cadw’n ddiogel wrth ddefnyddio dyfeisiadau’r feithrinfa ar-lein.

Rhaid i staff gadw at y canlynol:

- Mae ffonau symudol/oriorau clyfar/*fitbits* naill ai i'w diffodd neu eu distewi ac nid ydynt i gael eu defnyddio yn ystod oriau gwaith
- Dim ond yn ystod egwyl benodol mae modd defnyddio ffonau symudol/oriorau clyfar/*fitbits* ac ni chaiff hyn ddigwydd yng nghlyw'r plant
- Dylid cadw ffonau symudol/oriorau clyfar/*fitbits* yn bagiau personol staff ar bob achlysur yn ystod oriau diwrnod gwaith
- Ni chaniateir i unrhyw ddyfais bersonol gysylltu ar unrhyw adeg i Wi-Fi y feithrinfa
- Dim ond i ddibenion y feithrinfa y caniateir defnyddio dyfeisiadau'r feithrinfa, megis tabledi
- Ni fydd unrhyw apiau cyfryngau cymdeithasol na negeseua ar ddyfeisiadau'r feithrinfa
- Dim ond rheolwyr y feithrinfa sydd yn cael lawrlwytho unrhyw apiau i ddyfeisiadau'r feithrinfa. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond apiau addas i oedran y plant ac apiau diogel fydd ar gael i staff neu blant eu defnyddio
- Nid yw staff i rannnu nac ysgrifennu / cyfringodau ar gyfer dyfeisiadau'r feithrinfa a chânt eu newid yn rheolaidd
- Yn ystod gwibdeithiau, bydd staff yn defnyddio ffonau symudol y feithrinfa ble bynnag y bo hynny'n bosib. Ni chaniateir cymryd lluniau o blant ar unrhyw ffonau personol nac unrhyw ddyfais arall sy'n storio gwybodaeth bersonol. Dim ond dyfeisiadau sy'n eiddo i'r feithrinfa sydd i'w defnyddio i dynnu lluniau neu ffilmio fideos.
- Nid yw staff i fynd â dyfeisiadau'r feithrinfa gartref ac maent i'w cadw'n ddiogel yn y lleoliad pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Os bydd angen mynd â dyfais gartref dan amgylchiadau nad oes modd ei rhagweld, yna rhaid i'r person sydd yn mynd â'r ddyfais gartref sicrhau ei bod wedi ei storio'n ddiogel, heb fod yn hygyrch i unrhyw unigolyn arall a'i dychwelyd i'r feithrinfa cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib.

**Rhieni ac ymwelwyr yn defnyddio ffonau symudol ac oriorau clyfar**

Tra ein bod yn cydnabod y gall fod yn angenrheidiol defnyddio ffôn symudol mewn amgylchiadau brys, er mwyn sicrhau diogelwch a lles y plant yn ein gofal a rhannu gwybodaeth am ddiwrnod y plentyn, gofynnwn yn garedig i rieni ac ymwelwyr beidio â defnyddio'u ffonau symudol tra yn y feithrinfa neu wrth iddynt gasglu neu ollwng eu plant.

Os byddwn yn eich canfod yn defnyddio'ch ffon symudol tu fewn i adeilad y feithrinfa byddwn yn gofyn ichi orffen yr alwad neu gamu allan o'r adeilad i gymryd yr alwad.

Gwnawn hyn i sicrhau bod pob plentyn wedi eu diogelu a bod amser gollwn a chasglu plant yn gyfle o safon i rannu gwybodaeth am eich plentyn. Gofynnwn i ymwelwyr adael eu ffonau symudol neu oriorau clyfar yn niogelwch y swyddfa ble cânt eu rhoi o'r neilltu'n ddiogel dan glo.

Gofynnir i rieni beidio caniatáu i'w plentyn i wisgo neu i ddod â dyfeisiau sy'n gallu cymryd lluniau neu fideos neu recordio lleisiau. Mae hyn yn cynnwys oriorau clyfar gyda'r nodweddion yma, tebyg i Vtech. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu ac mae hefyd yn amddiffyn eu heiddo rhag cael eu malurio neu eu colli yn y feithrinfa.

**Ffotograffau a fideos**

Yn Once Upon A Time rydym yn cydnabod bod ffotograffau a recordiadau fideo yn chwarae rhan ym mywyd y feithrinfa. Rydym yn sicrhau bod unrhyw ffotograffau neu recordiadau (gan gynnwys Teledu Cylch Cyfyng) a gymerwyd o blant yn ein meithrinfa yn cael eu gwneud gyda chaniatâd ysgrifenedig a roddwyd ymlaen llaw gan riant pob plentyn, ac rydym yn rhannu ffotograffau gyda rhieni mewn diogel yn unig. Rydym yn sicrhau hyn pan fo'r plentyn yn cael ei gofrestru ac rydym yn diweddaru hyn yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod y caniatâd yn gyfredol.

Rydym yn gofyn am ganiatâd unigol ar gyfer ffotograffau a recordiadau fideo i ystod o ddibenion gan gynnwys: eu defnyddio yn nhaith dysgu'r plentyn, ar gyfer byrddau arddangos, ar gyfer deunyddiau hyrwyddo gan gynnwys gwefan a llyfryn ein meithrinfa a'r wasg leol ac er diogelwch mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng a'r gwahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwn. Rydym yn sicrhau bod rhieni yn deall y gall eu plentyn fod mewn ffotograff arall, i'w ddefnyddio o bosib yn nhaith dysgu plentyn arall. Ni chaiff ffotograffau na fideos eu cymryd mewn ardaloedd ble mae gweithdrefnau gofal personol yn digwydd.

Os nad yw rhiant yn hapus gydag un neu fwy o'r dibenion uchod yna byddwn yn parchu eu dymuniad ac yn canfod dulliau amgen o gofnodi chwarae neu ddysgu eu plentyn.

Ni chaniateir i staff gymryd unrhyw ffotograffau neu recordiadau o blentyn ar eu dyfeisiadau storio gwybodaeth eu hunain, e.e. camerâu, ffonau symudol, tabledi neu oriorau clyfar a dim ond y rhai hynny a ddarperir gan y feithrinfa a ddefnyddir. Bydd rheolwr y feithrinfa yn monitro'r holl ffotograffau a recordiadau i sicrhau bod dymuniadau rhieni yn cael eu parchu a bod plant yn cael eu diogelu.

Mae ffotograffau na fideos sydd wedi eu recordio ar ddyfeisiadau symudol y feithrinfa i'w trosglwyddo i'r ddyfais storio gywir i sicrhau nad oes unrhyw ddelwedd wedi ei gadael ar y dyfeisiadau symudol yma.

Ni chaniateir i rieni ddefnyddio unrhyw ddyfais recordio neu gamera (gan gynnwys rhai ar ffonau symudol neu oriorau clyfar) ar eiddo'r feithrinfa heb gydsyniad blaenorol y rheolwr.

Yn ystod digwyddiadau arbennig, e.e. Nadolig neu bartïon gadael, mae'n bosib y bydd staff yn cynhyrchu ffotograffau i'w rhannu gyda rhieni ar eu cais. Yn yr achos yma byddwn yn gofyn am ganiatâd unigol ar gyfer pob plentyn cyn y digwyddiad. Bydd hyn yn sicrhau bod pob ffotograff yn cael ei gymryd yn unol â dewis y rhiant. Gofynnwn i rieni beidio â phostio ffotograffau o ddigwyddiadau megis partïon Nadolig ar wefan/ardal unrhyw gyfrwng cymdeithasol heb ganiatâd rhieni'r holl blant sydd yn y llun.

**Ar gyfer lleoliadau sy'n defnyddio Dyddiaduron Dysgu Ar-lein**

Yn Once Upon A time rydym yn defnyddio tabledi yn yr ystafelloedd i dynnu lluniau o'r plant ac i recordio'r rhain yn uniongyrchol ar eu siwrneiau dysgu electronig. Rydym yn sicrhau bod y dyfeisiadau yma i'w defnyddio dim ond i'r diben yma ac nid ydym yn gosod cymwysiadau megis safleoedd cyfryngau cymdeithasol na negeseua ar y dyfeisiadau yma.

Rydym hefyd yn cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau nad oes e-byst na negeseuon testun (pan fo hynny'n briodol) wedi eu danfon o'r dyfeisiadau yma, ac rydym yn atgoffa staff o'r polisi chwythu'r chwiban pe digwydd iddynt weld staff yn gwyro oddi wrth y gweithdrefnau diogelu yma.